**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (26)**

**Dydd Mercher, 30 Hydref 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Strategaeth Maethu**

**Eitem 4**
**Cynnig i Ddirprwyo Swyddogaethau'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a 'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002**
***NDM1192 -*** *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, gan weithredu o dan adrannau 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir o fewn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a 'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002; i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

*Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.*

*Gellir cael Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a 'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002 ar y Fewnrwyd trwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol:*
*http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2002/20020017.htm*

**Eitem 5**
**Cynnig i Nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru**
***NDM1193 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol,* gan weithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.5, yn nodi Adroddiad Blynyddol 2001-02 Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2002.

Cliciwch yma i weld yr Adroddiad Blynyddol.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

*(1)*

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi'n ofalus y sylwadau a wnaeth Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd ar y weithdrefn gwyno o fewn y GIG.

**Eitem 6**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol Prif Weinidog Cymru**
***NDM1191 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol*, gan weithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.5, yn croesawu Adroddiad Prif Weinidog Cymru 2001-02 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Hydref 2002.

Cliciwch yma i weld yr Adroddiad Blynyddol.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

*(1)+(2)*

**Gwelliant 1 -  Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu 'croesawu' a rhoi yn ei le 'nodi'

**Gwelliant 2 -  Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn mynegi pryder ynghylch record Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes gwasanaethau cyhoeddus a datblygu economaidd a methiant Adroddiad Blynyddol Prif Weinidog Cymru i sôn am y canlynol yn benodol:

a) Y bydd y cynlluniau i ad-drefnu'r NHS yng Nghymru'n gostus ac yn aneffeithiol;

b) Y cododd nifer y cleifion a oedd yn aros am driniaeth allanol 41% yn ystod cyfnod yr adroddiad;
c) Bod y bwlch rhwng Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru a gweddill y DU yn mynd yn fwy;
d) Bod y gwaith atgyweirio sy'n aros i'w wneud ar adeiladau ysgolion yn cronni fwyfwy o hyd.

**Eitem 7**
**Dadl Fer: *NDM1190* Peter Rogers (Gogledd Cymru): Mae'r Rheol 20 Diwrnod yn Lladd Ffermio a Marchnadoedd Da Byw a Rhaid ei Dileu - Nawr**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 5 Tachwedd 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**